**Cofnodion cyfarfod y Grŵp Trawsbleidiol ar Dwf Gwledig**
**Cynhaliwyd y cyfarfod ar 14 Mawrth 2023, am 12:00, yn Ystafell Gynadledda 5 yn Nhŷ Hywel.**

Cafodd y cyfarfod ei gadeirio gan Sam Kurtz AS, a groesawodd pawb a oedd yn bresennol yn y cnawd a'r rhai oedd yn ymuno ar-lein.

Soniodd y Cadeirydd am gefndir y Grŵp Trawsbleidiol, a'r nod o ddarparu adroddiad i Lywodraeth Cymru ar ddiwedd y broses y gellir ei ddefnyddio i ysgogi newid yn yr economi wledig.

Yn bresennol yn y cnawd: Sam Kurtz AS; Llyr Gruffydd AS; Sam Rowlands AS; Peter Fox AS; Andrew Shirley, Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad Cymru; Yr Athro Calvin Jones, Ysgol Busnes Caerdydd; Ben Francis, Hygrove Homes.
Ar Zoom: Y Cynghorydd Liz Burnett; Y Cynghorydd James Gibson Scott; Jennifer Ramsey (aelod o staff cymorth Paul Davies AS); Ryland Doyle (aelod o staff cymorth Mike Hedges AS); David Bowden, Cymdeithas Saethu a Chadwraeth Prydain (BASC); Jonathan Evershed.

**Andrew Shirley, Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad Cymru**
Mae angen i gymunedau gwledig ffynnu - nid ydym yn llefydd ar gyfer twristiaid ac ymwelwyr yn unig. Nid oes cynlluniau datblygu lleol yn eu lle, ac nid oes gan y rhan fwyaf o gymunedau gyflenwad tai pum mlynedd. Mae angen dirfawr am dai - **mae angen cyfuno tai ar gyfer y farchnad a thai fforddiadwy; fel arall, ni all y farchnad gyflawni'r hyn sydd ei angen o ran cyllid.** Mae hyn yn hanfodol ar gyfer sicrhau cymuned ddeinamig. Mae niwtraliaeth maethynnau yn dal cynllunio yn ôl. Byddai Hawliau Datblygu a Ganiateir ar gyfer tai fforddiadwy yn cyflymu'r system. Gallai'r broses o sicrhau bod tai cymunedol yn cael eu darparu gymryd 10 mlynedd. Byddai hynny'n rhy hir ac yn rhy hwyr. Problem fawr o ran datblygiadau tai yn cael eu hoedi yw'r ffaith bod cymunedau lleol yn eu dal yn ôl. Er bod hyn yn ddealladwy, mae angen ystyried y darlun ehangach.

**Ben Francis, yn cynrychioli Hygrove Homes, sydd wedi'i leoli yng Nghymru, a Ffederasiwn y Meistr Adeiladwyr.**
Roedd Ben yn bresennol yn rhinwedd ei rôl broffesiynol ac fel unigolyn preifat. Mae Ben yn ddatblygwr preifat sy'n cydnabod pwysigrwydd tai. Y rhwystr mwyaf i ddatblygu yw'r system gynllunio.
Mae adnoddau'n cael eu hychwanegu at yr adrannau cynllunio nad oes modd ymdrin â hwy. Mae ffioedd yn cynyddu ac nid yw'r gwasanaeth a ddarperir yn foddhaol. Mae cyflymder y broses o wneud ceisiadau cynllunio a chyflymder y broses o ymateb i ymgyngoreion allanol a mewnol yn araf. Mae angen atebolrwydd pan aiff pethau o chwith. Mae costau sy'n gysylltiedig â rheoliadau cynllunio yn cynyddu, o gymharu â'r incwm sy'n deillio o werthu eiddo.
Mae rôl Dŵr Cymru, Rhentu Doeth Cymru, prinder pobl yn y crefftau a phrinder ymgynghorwyr proffesiynol i gyd yn cael effaith ar y broses gynllunio.
Darllenodd Ben ddogfen a gyhoeddwyd gan awdurdod cynllunio Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, sy'n nodi ei fod ar gau ar hyn o bryd yn sgil y nifer fawr o geisiadau sydd wedi dod i law a'r oedi sy'n digwydd yn sgil prinder staff. Mae'r galw am swyddogion unigol yn parhau i fod yn uchel. Fodd bynnag, dim ond ar adegau penodol y mae swyddogion ar gael, sy'n golygu ei bod yn anodd iawn cysylltu ag unrhyw un.
Mae nifer yr achosion o orfodi yn uchel.
Mae'r cyngor a ddarperir cyn gwneud cais yn parhau i fod ar gael, ond bydd yn cymryd hirach na'r arfer.
Nid oes modd i'r awdurdod gymryd taliadau ar gerdyn, drwy arian parod neu dros y ffôn.
Nid yw'r gymhorthfa gynllunio ar agor ar hyn o bryd.

Yn y bôn, mae'n anodd iawn cyflawni unrhyw beth.

**Yr Athro Calvin Jones – Ysgol Busnes Caerdydd**
Nid yw'r system gynllunio yn bodoli i sicrhau twf economaidd neu gynhyrchiant. Mae'n bodoli i reoleiddio a chynnal mesurau i ddiogelu'r amgylchedd a phethau eraill.
O ystyried lefel yr adnoddau sydd wedi'u hychwanegu at y system gynllunio – ni all y system gyflawni a chefnogi twf.
Nid oes cynllun gofodol effeithiol ar waith.
Nid oes modd ychwanegu mwy o ffosffad i'r system gan fod hyn yn niweidiol iawn. Cydnabyddir effeithiau'r llygredd hwn.
Mae'r economi yn hynod anghyfartal – dyma'r canlyniadau anfwriadol.
Yn gynyddol, nid yw polisi tai yn gallu darparu mwy o gartrefi fforddiadwy. Nid oes ateb hawdd i hyn, a bydd y sefyllfa'n mynd yn fwy cymhleth ac anodd. Pe bai **TAN15** wedi cael ei weithredu'n unol â'r amserlen wreiddiol, byddai hynny wedi bod yn fwy cyfyngol fyth. Dim ond gwaethygu y bydd y broblem hon yn y dyfodol.
Nid oes awydd i ddiystyru problemau'r system gynllunio bresennol, ond mae'n gwneud cam â hi – tai, diogelu'r amgylchedd.
**Faint o amser deddfwriaethol sydd ar gael i drawsnewid y sefyllfa hon? Gall y Gweinidog ddiogelu rhai meysydd. Fodd bynnag, ymddengys nad yw'n gallu cyflawni yn gyffredinol.**

**Y Cynghorydd Lis Burnett, Bro Morgannwg**
Mae gan Fro Morgannwg drefi ac amgylcheddau lled-wledig. Yr hyn sydd ei angen, yn anad dim, yw system gynllunio sy'n seiliedig ar leoedd. Mae gan gymunedau yn yr ardaloedd hyn anghenion penodol. Yn aml, mae cymunedau gwledig yn gwrthwynebu datblygiadau, ac nid yw hyn yn helpu. A oes gennym y mathau cywir o dai yn y lleoedd iawn?
**A all pob cymuned gael mynediad at waith? Os oes gan bobl swyddi ar gyflogau is yn y sector gofal cymdeithasol, sut y byddant yn gallu fforddio byw yn y cymunedau hynny?** Mae angen cartrefi y gall pobl fforddio byw ynddynt os ydynt yn gweithio mewn siopau.

**Y Cynghorydd James Gibson Scott**
Mater hollbwysig – dyma gyngor arweiniol yn un o ranbarthau mwyaf gwasgaredig y DU. Mae hefyd yn un o'r ardaloedd â'r boblogaeth hynaf. Mae'r data o ran y ddemograffeg yn frawychus – os bydd y duedd hon yn parhau i gyflymu yn y dyfodol, bydd yr economi a'r strwythur cymdeithasol yn dymchwel. Mae pobl ifanc yn gadael y cymunedau hyn, sy'n destun pryder mawr.
**Tai yw'r ffactor allweddol o ran mynd i'r afael â hyn**.
Mae'r amodau yng nghefn gwlad Cymru yn debyg i'r hyn a welwyd yn hanesyddol pan gafodd asiantaeth benodol ei sefydlu.
Mae hanner sir Powys yn destun moratoriwm cynllunio yn sgil materion yn ymwneud â ffosffad. Ardaloedd cadwraeth arbennig yr afonydd Gwy ac Wysg. Mae hyn yn cael effaith wirioneddol ar bobl ifanc a'r rhai sydd angen tai. Y ffynhonnell fwyaf o rwystredigaeth yw'r ffaith bod gan rai rhannau o'r Afon Gwy lefel isel o ffosffadau, ond bod y lefelau yn uchel mewn mannau eraill. Fodd bynnag, nid yw dull mwy cyffredinol yn ddefnyddiol o ran datblygu.
Pan ddaeth y Cynghorydd yn arweinydd – dywedodd fod cysylltiad annatod rhwng cynllunio a datblygu economaidd – geiriau nas clywyd o'r blaen. Fel rhan o fargen twf Canolbarth Cymru, bydd gofyn gael dull integredig o gynllunio. Ar ben hynny, mae Llywodraeth Cymru yn gofyn i'r cyngor adolygu'r cynllun lleol. Mae am i'r cyngor ddarparu datblygiadau llai, ond mae datblygwyr mwy am adeiladu datblygiadau mwy – er enghraifft, 40 o dai. Felly, mae yna baradocs yma. Mae Llywodraeth Cymru am annog mwy o ddatblygiadau mewn ardaloedd trefol, ond mae angen dybryd am fwy o ddatblygiadau mewn ardaloedd gwledig. Mae James hefyd am weld busnesau bach a chanolig yn tyfu – er enghraifft, garejis, siopau ac ati.

**Mae pob polisi dros y blynyddoedd diwethaf wedi goleddfu i ffwrdd o ardaloedd gwledig a thuag at ardaloedd trefol.**
**Rhaid newid hyn – mae ailboblogi ardaloedd cefn gwlad yn allweddol.**

**Llyr Gruffydd AS** - Mae gwaith cynllunio yn cael ei ail-gyflunio, ac mae CGCs yn dod i'r amlwg - a fydd yn bwydo i lawr i bolisi cynllunio lleol. Mae'r broses o roi cynlluniau datblygu rhanbarthol ar waith yn cymryd amser. MAE CYLCH HIR AC ARAF AR GYFER SICRHAU BOD HYN YN DIGWYDD - yn y cyfamser, mae cymunedau'n dioddef difrod cyfochrog. Beth ellir ei wneud yn awr?
Mae Bil cydgrynhoi ym maes cynllunio yn yr arfaeth. Dim ond hyn a hyn y gall y Llywodraeth ei wneud.
Mae angen sicrhau mwy o dai ac ymateb i'r argyfwng hinsawdd ar yr un pryd. Gallai'r fan gyfyng hon bara am 5 – 10 mlynedd.

**Ben Francis** – gall adeiladwyr tai cenedlaethol ddewis gweithio yn Lloegr yn hytrach na Chymru – yn sgil y ffaith bod polisi cynllunio mor heriol ar yr ochr hon i'r ffin. Byddai hyn yn rhoi Cymru o dan anfantais sylweddol, a byddai'r bwlch yn tyfu.
Mae cynllun Ben ei hun wedi cael ei ohirio ers 3 blynedd yn sgil materion yn ymwneud â ffosffadau, ac mae'r sefyllfa hon yn rhwystredig. Mae dwy uwchgynhadledd bellach wedi'u cynnal, ond **does dim byd wedi digwydd ers mis Gorffennaf diwethaf. Felly, i ble yr ydym yn mynd nesaf? Ansicrwydd sy'n achosi'r anawsterau. Mae angen i rywun gymryd yr awenau.**

**Peter Fox MS – os ydym yn** rhoi ffosffadau o'r neilltu, mae anghysondeb clir rhwng dyheadau'r Llywodraeth ac anghenion lleol. Mae angen meddwl yn rhanbarthol. Mae gan awdurdodau lleol anghenion yn awr, ac mae angen mynd i'r afael â'r sefyllfa honno. Mae 3,000 o bobl yn aros am dŷ yn Sir Fynwy. Mae'r Llywodraeth yn erbyn setliadau newydd. Os nad ydym yn gweithredu'n fuan ynghylch busnesau bach a chanolig mewn ardaloedd gwledig, ni fyddwn yn gallu ailadeiladu. Bydd pobl yn dilyn eraill allan o'r cymunedau hyn ac yn eu gadael yn wag. Mae'n rhaid inni gael dull cydgysylltiedig a safbwynt polisi clir y gall awdurdodau gyfrannu ato.

CJ
Mae'r llanast hwn yn bodoli yn sgil gorddefnydd dros ganrifoedd, sydd wedi llygru'r hinsawdd. Tai sy'n addas ar gyfer 2050 – targedau hinsawdd – mae angen adeiladu cartrefi nad ydynt yn dibynnu ar wres. Ni ddylem adeiladu cartrefi sy'n achosi problemau o ran ffosffadau. Y ci yw gofynion y DU o ran tai; y gynffon yw Llywodraeth Cymru. EHANGU. Mae trafodaethau wedi'u cynnal ynghylch tai â ffrâm bren a thai goddefol am bum mlynedd, ond nid oes unrhyw beth yn digwydd mewn perthynas â hyn. Tynnwyd sylw at enghraifft o gartrefi sydd bellach yn cael eu heffeithio gan lifogydd. Ni ddylid adeiladu cartrefi nad ydynt yn gallu gwrthsefyll newidiadau yn yr hinsawdd a llifogydd yn y dyfodol. Nid yw'r math hwn o adeilad amgylcheddol yn adeilad prif ffrwd, ond dylai fod. Yn yr un modd â systemau SUDs, rhaid meddwl am yr hyn na fydd yn ymdopi ag effeithiau hinsoddol yn y dyfodol.

**Ben Francis – A yw'r system gynllunio yn rhwystr? Yn bendant. Nid oes safonau gwasanaeth effeithiol, ac mae hyn yn rhwystredig. Mae angen darparu gwell gwasanaeth i ddatblygwyr.**
Mae cyflymder y broses o ymateb i ddatblygwyr preifat yn wael iawn.
Ben – cafwyd enghraifft yn ddiweddar lle'r oedd cyfnod o 20 wythnos i ymateb er mwyn apelio, ac yna 20-25 wythnos arall i allu ymateb i hynny.

**Sam K –** ymddengys y bydd cynllunio ôl-weithredol yn cynyddu. Bydd ddatblygwyr yn cymryd y cyfle i adeiladu ac yna'n cael caniatâd cynllunio yn ddiweddarach.

**Sam Rowlands AS** – 'Peidiwch â gadael i berffeithrwydd rwystro'r hyn sydd yn dda.'

Mae 12,000 o aelwydydd sydd heb gartrefi mewn llety gwely a brecwast. Mae angen gweithredu yn awr, ac nid yw'r sefyllfa hon yn gyfrifol. Mae'r aelwydydd hyn yn aml yn cynnwys plant.
Mae'r darlun hwn yn cael ei fethu yn sgil ymdrechion i greu system gynllunio berffaith. Mewn gwirionedd, bydd yn cymryd blynyddoedd i gyflawni hyn.

**Newid go iawn – angen cysylltiadau band eang llawer gwell –** Gan fod pobl yn gweithio gartref i raddau mwy helaeth, mae hwn yn gyfle i ragor o bobl wneud newidiadau i'w ffyrdd o fyw, gan symud eu teuluoedd i ardaloedd gwledig. Bydd hyn yn cefnogi'r cymunedau lleol hynny.

**Byddai rhoi chwistrelliad tymor byr o arian parod i awdurdodau lleol at ddibenion rhoi ceisiadau cynllunio ar lwybr carlam yn help mawr o ran clirio'r ôl-groniad** a chaniatáu i ragor o ddatblygiadau ddigwydd. A hefyd – dim mwy o reoleiddio neu fiwrocratiaeth, os gwelwch yn dda!

**Lis B, Cynghorydd, Bro Morgannwg –** etifeddwyd cynllun datblygu lleol drafft. Cynhaliwyd adolygiad ohono er mwyn edrych ar seilwaith a thai fforddiadwy. Mewn rhai ardaloedd, defnyddir datblygiadau modiwlaidd i gefnogi tai lleol.

Mae datblygiadau modiwlaidd yn ddatblygiadau a ganiateir am flwyddyn. Mae hynny'n arwain at ganiatáu'r broses o wneud cais am ganiatâd cynllunio. Mae angen mwy o hyn.
Mae'r Fro yn dod yn ddatblygwyr lleol. Mae'n defnyddio pobl a chwmnïau lleol i ysgogi twf.
DS – beth yw'r gofynion sy'n gysylltiedig â hyn o ran sgiliau?
Mae angen mwy o hyblygrwydd.

**James Gibson Scott, Cynghorydd, Powys**
Mae pobl am fyw yma, ond did ydynt yn gallu dod o hyd i rywle i fyw. Mae hyn yn mynd i gael effaith ddifrifol, a bydd yn destun difaru yn y blynyddoedd i ddod.

Mae gwrthdaro rhwng gwytnwch a'r angen am ddatblygiadau.
**Hinsawdd yw'r brif risg ar gofrestr y cynllun corfforaethol –**
Mae pob datblygiad newydd yn ddatblygiad tai goddefol neu'n ddatblygiad carbon niwtral iawn. Felly, gellir gwneud hyn.

Mae system y grid pŵer yn fregus iawn. Nid oes grid. Yn hytrach, mae cyfres o rwydweithiau datblygu lleol. Mae hyn yn fater y mae angen rhoi sylw iddo. Mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o hyn, ond sut y caiff ei gyflawni? Mae Llywodraeth Cymru yn siarad lot, ond nid yw'n cyflawni llawer. DS – targedau 2035

**Andrew Shirley, Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad Cymru** – byddai chwistrelliad o arian parod i awdurdodau lleol yn dda, ond byddai angen chwistrelliad o sgiliau ac arbenigedd hefyd.
Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol – pwysig, ond ni ddylai hyn lesteirio twf.
Ni ddylid caniatáu effaith o'r brig i lawr, gan y byddai pobl yn aros 10-20 mlynedd fel arall.
Mae angen proses gyflym er mwyn sicrhau bod polisi cenedlaethol yn digwydd ar lefel leol.
Y pwynt yw, mae angen mwy o dai arnom!

**Ben Francis** – Nid yw Llywodraeth Cymru yn mynd i'r afael â materion yn ymwneud â thai fforddiadwy; mae awdurdodau lleol yn atal anghenion tai lleol.

**Atalyddion** – SUDs, TAN 15 (mwy o hyblygrwydd ond faint o amser fydd y broses o'i weithredu yn ei gymryd?) Ffosffadau – am ba mor hir fydd hyn yn cael sylw? 30 o dai yn Aberhonddu, ond nid oes diwedd yn y golwg o ran mynd i'r afael â hyn.

**Sam Kurtz** – bydd technoleg yn mynd i'r afael â’r mater hwn a’r broses o buro dŵr.

Dŵr Cymru - mae’n sefydliad dielw ond nid yw’n cyflawni. Yn ogystal, mae ganddo gyfarwyddwyr ar gyflogau mawr!

**Peter Fox, AS** – Ni fydd Dŵr Cymru yn gallu uwchraddio eu holl weithfeydd ar gyfer trin carthion am nifer o flynyddoedd – bydd yn costio miliynau o bunnoedd. Ni all datblygiadau preifat roi eu systemau eu hunain ar waith oni bai bod consesiynau. Mae pobl am weld lliniaru o 100%, ac mae hyn yn amhosibl. A ellir cael lliniaru o 99% neu lai, a fydd yn caniatáu rhai datblygiadau?

CJ – heb ryw fath o weledigaeth a chynllun ar draws Cymru ac mewn mannau trefol, byddwn bob amser yn ceisio adeiladu dros ugain jig-so.
Mae penderfyniadau'n cael eu gwneud yn gynyddrannol, ac mae angen dull gweithredu cydgysylltiedig.

Cyfarfod nesaf – 23 Mai – Twristiaeth